



Theatr
Clwyd

Welcome Pack
Theatr Clwyd
Companies

Pecyn Croeso
Cwmnïau
Theatr Clwyd

1. Welcome
 2. Arriving at Theatr Clwyd
 3. What should my child/myself wear?
 4. What about Food and Drink?
 5. The Team
 6. Health, Safety and Wellbeing
 - a. Safety Procedure
 - b. The Virus
 - c. Safeguarding
 - d. Behaviour and Concerns
 7. Your Data Rights and Complaints
-
1. Croeso
 2. Cyrraedd Theatr Clwyd
 3. Beth ddylai fi neu fy mhlentyn ei wisgo?
 4. Beth am Fwyd a Diod?
 5. Y Tîm
 6. Iechyd, Diogelwch a Lles
 - a. Gweithdrefn Ddiogelu
 - b. Y Feirws
 - c. Diogelu
 - d. Ymddygiad a Phryderon
 7. Eich Hawliau Data a Chwynion



CROESO NOL

These sessions have been designed to be a fun-filled creative experience, an opportunity to explore the arts in a safe, supportive, and fun environment with our professional creative team.

We hope that this Welcome Pack will provide you with the information you need before and during your attendance at the Theatre.

Diolch yn fawr,
Gwennan Mair

CROESO

Nod y sesiynau yma yw bod yn brofiad creadigol llawn hwyl, cyfle i archwilio'r celfyddydau mewn amgylchedd diogel, cefnogol a hwyllog gyda'n tîm creadigol proffesiynol! Bydd y sesiynau llawn llawenydd, hapusrwydd a charedigrwydd ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau gweithio gyda chi!

Gobeithio y bydd y Pecyn Croeso yma'n rhoi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i chi cyn ac yn ystod presenoldeb yn y Theatr.

Diolch yn fawr,
Gwennan Mair



Arriving at Theatr Clwyd

Entrance is through the theatre's main doors (for those of you who are familiar with the theatre, the tunnel entrance and the underground car park will not be open).

We are operating a drop off facility where one of our team will be based on the forecourt to allow us to register that your child has arrived without the need for you to leave your vehicle. The exception to this is on the first session, where you can bring them into the building to drop them off and to check all emergency details. We would like you to confirm that your emergency contacts are up to date and that any medical/access information we hold is correct. The participants will then be taken to their dedicated spaces by one of our team where they will join the group, there will be a maximum of 15 people in the group.

We ask that you do not come to the theatre if anyone in your household or household bubble is displaying any symptoms of Coronavirus (COVID-19).

Cyrraedd Theatr Clwyd

Cewch fynediad drwy brif ddrysau'r theatr (ar gyfer y rhai ohonoch chi sy'n gyfarwydd â'r theatr, ni fydd y twnnel mynediad na'r maes parcio dan y ddaear ar agor).

Rydym yn gweithredu cyfleuster gollwng lle bydd un o'n tîm ar y blaengwr fel ein bod yn gallu cofrestru bod eich plentyn wedi cyrraedd heb i chi orfod gadael eich cerbyd. Yr eithriad i hyn fydd y sesiwn cyntaf, a chewch ddod â'ch plentyn i mewn i'r adeilad y diwrnod hwnnw i gadarnhau manylion meddygol. Bydd uchafswm o 15 o blant ym mhob grŵp.

Gofynnwn i chi beidio â dod i'r theatr os oes gan unrhyw un yn eich cartref neu swigen eich cartref unrhyw rai o symptomau'r coronafeirws (COVID-19).

What should I/or young person wear?

It is important that all the young people or yourself wear suitable footwear like pumps or trainers (not flip flops and not trainers with wheels) and loose clothing like trousers, tracksuit bottoms, shorts. Short skirts and items of clothing that show midriff (front of the body between the chest and the waist) are not recommended.

What about food and drink?

Please bring a drink of water for the workshops. The café will be open 9.00am-5.30pm for light refreshments for the public.

Beth ddylai fi neu fy mhlentyn ei wisgo?

Mae'n bwysig bod y pawb yn gwisgo esgidiau addas fel pymps neu esgidiau ymarfer (dim fflip fflops a dim olwynion ar esgidiau) a dillad llac fel trowsus, gwaelod tracwsg a siorts. Nid ydym yn argymhell sgertiau byr na dillad sy'n dangos canol y corff (yn y blaen rhwng y frest a'r wasg).

Beth am fwyd a diod?

Dewch a diod a ddŵr i'r gweithdy. Er gwybodaeth mi fyd y caffi ar agor 9.00am-5.30pm ar gyfer coffi, te a cacennau!

The Team

There will be a Facilitator and Support with each of our groups to work with the children and make sure they are learning new skills and having fun.

We will also have a Duty Manager to look after our spaces and who will be our nominated First Aider.

All staff working on our weekly programme have undergone an Enhanced DBS (Disclosure and Barring Service) Check.



Gwennan Mair Jones

Director of Creative Engagement
Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol

Y Tîm

Bydd Hwylusydd a Chynorthwy-ydd gyda phob un o'n grwpiau i weithio gyda pawb a gwneud yn siŵr eu bod yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael hwyl.

Bydd gennym ni hefyd Reolwr ar Ddyletswydd i ofalu am ein gofod a hwn fydd y Swyddog Cymorth Cyntaf.

Mae'r holl staff sy'n gweithio fel rhan o'n rhaglen wythnosol wedi cael Archwiliad Manwl gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).



Emma King

Creative Engagement Administrator
Cymhorthyydd Gweinyddol

Health, Safety and Wellbeing

The welfare of all the children and adults is vital and we have a duty to protect children and adults in our care at all times. We will aim to make sure that all the children and adults are comfortable and happy with all the activities during their time at the Theatre.

a) Safety Procedures

- In the event of a fire or other emergency, the staff have been trained in Theatr Clwyd's procedures in order to get everyone out of the building through the safest and closest exit and make sure they are kept safe.
- A First Aid Trained member of Theatr Clwyd staff will be available at all times.
- All accidents and incidents will be recorded. Anything that cannot be satisfactorily explained or that gives you cause for concern can be reported to the Director of Creative Engagement - gwenan.mair@theatrclwyd.com.
- If a child becomes ill whilst in our care we will contact the parent/guardian immediately, and the child should be collected as soon as possible to avoid distress and to reduce any possible spread of infection.
- If your child has an **inhaler** or **Epipen**, please ensure that they have it clearly labeled with their name.

Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae lles yr holl blant a oedolion yn hollbwysig ac mae gennym ni ddyletswydd i amddiffyn y plant yn ein gofal bob amser. Byddwn yn ceisio gwneud yn siŵr bod yr holl blant ag oedolion yn gyfforddus ac yn hapus gyda'r holl weithgareddau yn ystod eu cyfnod yn y Theatr.

a) Gweithdrefnau Diogelwch

- Os bydd tân neu argyfwng arall, mae'r staff wedi cael eu hyfforddi yng ngweithdrefnau Theatr Clwyd er mwyn cael pawb allan o'r adeilad gan ddefnyddio'r allanfa agosaf a diogelaf ac i wneud yn siŵr eu bod yn cadw'n ddiogel.
- Bydd aelod o staff Theatr Clwyd sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ar gael bob amser.
- Bydd pob damwain a digwyddiad yn cael eu cofnodi. Gellir rhoi gwybod am unrhyw beth nad oes posib ei esbonio'n fodhaol neu sy'n achosi pryder i chi i'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol - gwenan.mair@theatrclwyd.com.
- Os bydd rhywun yn mynd yn sâl yn ein gofal ni, byddwn yn cysylltu â'r rhiant/ gwarcheidwad ar unwaith, a dylid casglu'r plentyn cyn gynted â phosib er mwyn osgoi gofid ac i leihau unrhyw bosibilrwydd o ledaenu haint.
- Os oes gan eich plentyn **fewnanadlydd** neu **Epipen**, gwnewch yn siŵr ei fod ganddo bob dydd, wedi'i labelu'n glir gyda'i enw.

b) The Virus

- These are the precautions we are taking to prevent the spread of Covid-19 in our Theatre.
- All staff will be trained in the theatre procedure to minimise the risk of Covid-19.
- All staff are taking lateral-flow test prior to their sessions.
- Everyone coming into the theatre will be asked to enter a temperature screening area. If there is concern, we will ask further screening questions in a dedicated private area or contact the parent/guardian.
- There are areas of the theatre allocated to the sessions and no other staff will be using those areas/spaces. The theatre will be thoroughly cleaned regularly as per Public Health Guidance.
- The participants will remain with their group at all times.
- If a child or staff member becomes symptomatic whilst at the Theatre, we will adhere to the latest Public Health Wales guidance. We will isolate the child until you can safely collect them. If a staff member becomes symptomatic they will be asked to leave immediately and self isolate. If anyone is then officially diagnosed positive or on the advice from Public Health Wales, parents/guardians of all members of the group will be informed in order to self-isolate.

b) Y Feirws

Dyma'r mesurau diogelu rydym yn eu rhoi ar waith i atal lledaeniad Covid-19 yn ein Theatr.

- Bydd y staff i gyd yn cael eu hyfforddi yng ngweithdrefn y theatr i leihau'r risg o Covid-19.
- Bydd Saff y Theatr i gyd yn cymherud prawf 'latural-flow'
- Gofynnir i bawb sy'n dod i'r theatr fynd i mewn i ardal sgrinio tymheredd. Os oes pryder, bydd cwestiynau sgrinio pellach yn cael eu holi mewn ardal benodol a phreifat neu byddwn yn cysylltu â'r rhiant/ gwarcheidwad.
- Mae ardaloedd yn y theatr wedi'u neilltuo i'r sesiynau ac ni fydd unrhyw staff eraill yn defnyddio'r ardaloedd/gofod hwnnw. Bydd y theatr yn cael ei glanhau'n drwyndl yn rheolaidd, yn unol â'r Cyfarwyddyd Iechyd Cyhoeddus.
- Bydd y staff yn gweithio gyda'r un plant gymaint â phosib er mwyn lleihau'r risg o haint.
- Bydd y plant yn aros yn eu grŵp bob amser.
- Os bydd plentyn neu aelod o staff yn dangos symptomau tra mae yn y Theatr, byddwn yn cadw at gyfarwyddyd diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn ynysu'r plentyn nes eich bod yn gallu ei gasglu yn ddiogel. Os bydd aelod o staff yn dangos symptomau, gofynnir iddo adael ar unwaith a hunanynysu. Os caiff unrhyw un ddiagnosis positif swyddogol neu, yn unol â chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd pob aelod o'r grŵp yn gorfod cael eu hanfon adref i hunanynysu.

- We will help the participants with the understanding and practice of physical distancing.
- We will help the participants to understand the good practice of handwashing and sanitising.
- Staff will wear Personal Protective Equipment if required to be within 2 metres from any child.
- Young people aged 12 or over will be expected to wear a face covering when moving around the building.
- We will not be sharing any items between groups and all items will be sanitised after use.
- We ask that you do not come to the theatre if anyone in your household or household bubble is displaying any symptoms of coronavirus (COVID-19).

The main symptoms of coronavirus in people are:

- a high temperature
- a new, continuous cough – this means coughing a lot, for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours
- a loss or change to sense of smell or taste – this means they cannot smell or taste anything, or things smell or taste different to normal

- Byddwn yn helpu'r plant gyda deall ac ymarfer cadw pellter corfforol.
- Byddwn yn helpu'r plant gyda deall arfer da mewn perthynas â golchi dwylo a diheintio.
- Bydd y staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol os oes angen i fod o fewn 2 fetr i unrhyw blentyn.
- Bydd disgwyl i bobl ifanc 12 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb wrth symud o amgylch yr adeilad.
- Ni fyddwn yn rhannu unrhyw eitemau rhwng grwpiau a bydd pob eitem yn cael ei diheintio ar ôl pob defnydd.
- Gofynnwn i chi beidio â dod i'r theatr os oes gan unrhyw un yn eich cartref neu swigen eich cartref unrhyw rai o symptomau'r coronafeirws (COVID-19).

Dyma brif symptomau'r coronafeirws mewn plant:

- tymheredd uchel
- peswch newydd, parhaus – mae hyn yn golygu peswch llawer, am fwy nag awr, neu 3 neu fwy o achosion o besychu mewn 24 awr
- colli synnwyr arogl neu flasu, neu newid yn y synhwyrau hynny – mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu arogli neu flasu unrhyw beth, neu mae'r arogli neu'r blasu yn wahanol i'r arfer

c) Safeguarding

Theatr Clwyd follows the Procedures for Safeguarding in Wales. All staff working in the Theatre have received Safeguarding Training.

Theatr Clwyd has a Safeguarding Team, who can be contacted if needed:

Liam Evans-Ford	Executive Director & Child Protection Officer Cyfarwyddwr Gweithredol a Swyddog Amddiffyn Plant	liam.evansford@theatrclwyd.com	01352 701559
Andrew Roberts	Director of Operations and Front of House Health and Safety Officer Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Blaen Tŷ Swyddog Iechyd a Diogelwch	andrew.roberts@theatrclwyd.com	01352 701555
Gwennan Mair	Director of Creative Engagement and Deputy Child Protection Officer Cydlynnydd Ymgysylltu Creadigol a Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant	gwennan.mair@theatrclwyd.com	01352 701575
Aled Marshman	Director of Music Cyfarwyddwr Cerdd	aled.marshman@theatrclwyd.com	01352 704130
Nick Stevenson	Associate Producer Cynhyrchydd Cyswllt	nick.stevenson@theatrclwyd.com	01352 701561

d) Behaviour and Concerns

We would like everyone including staff and participants to:

- Treat other children and adults as individuals and respect their rights, values and beliefs, and recognise the importance of different cultures.
- Encourage, praise and positively reinforce good relationships and behaviours.
- Work as a team, supporting and encouraging one another.
- Listen to one another without judgment and with compassion.

If there is a problem with a child's behaviour we will:

- Talk about the problem with those involved and with our Director of Creative Engagement.
- If the problem continues the Director will contact and discuss the issue with the parent/guardian.
- If the problem cannot be sorted out, it may result in the child losing their place in the group, but this is not something we would want to happen.

d) Ymddygiad a Phryderon

Hoffem i bawb, gan gynnwys y staff a'r plant, wneud y canlynol:

- Trin plant ac oedolion eraill fel unigolion a pharchu eu hawliau, eu gwerthoedd a'u credoau, a chydnabod pwysigrwydd gwahanol ddiwylliannau.
- Annog, canmol a chadarnhau perthnasoedd ac ymddygiad da yn bositif.
- Gweithio fel rhan o dîm, gan gefnogi ac annog ei gilydd.
- Gwrando ar ei gilydd heb farnu a gyda thrugaredd.

Os oes problem gydag ymddygiad plentyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Siarad am y broblem gyda'r rhai cysylltiedig a gyda'n Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol.
- Os bydd y broblem ymddygiad yn parhau, bydd y Cyfarwyddwr yn cysylltu â'r rhiant/ gwarcheidwad i drafod y broblem.
- Os nad oes modd datrys y broblem, gall arwain at y plentyn yn colli ei le yn y grŵp ond nid yw hyn yn rhywbeth rydym eisiau ei weld yn digwydd.

Your Data Rights and Complaints

About your information

We collect the registration information for the purposes listed below:

- To communicate with you any activities/issues relating to our weekly sessions.
- For the welfare of your child/young person.
- Information may be used to report symptoms to Public health Wales/111.

We will not:

- Share the information held with outside companies.
- Use the information for marketing purposes.

Theatr Clwyd's Privacy Notice can be found on
www.theatrclwyd.com

Eich Hawliau Data a Chwynion

Am eich gwylodaeth

- Rydym yn casglu'r wybodaeth gofrestru at y dibenion a restrir isod:
- I gyfathrebu gyda chi am unrhyw weithgareddau/ materion perthnasol i'n sesiynau wythnosol.
- Er lles eich plentyn/person ifanc.
- Efallai y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i roi gwybod am symptomau i Iechyd Cyhoeddus Cymru/111.

Ni fyddwn yn gwneud y canlynol:

- Rhannu'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gyda chwmiâu o'r tu allan.
- Defnyddio'r wybodaeth at ddibenion marchnata.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Theatr Clwyd i'w weld yn
www.theatrclwyd.com

When we use your data we ensure we take account of and keep your personal data rights in high regard. You have the right to see your data at any time. You can also object to how it is used, have it corrected or deleted. We systematically suppress old and unnecessary records in our systems. If you wish to raise a complaint on how we have handled your personal data, please contact our Data Protection Leads who will investigate the matter.

Our Data Protection Leads are: **Sam Freeman** and **Andrew Roberts**. They can be contacted at data.protection@theatrclwyd.com or 01352 344101 (Mon – Fri, 10am – 6pm) – we will endeavour to reply within 48 hours. If you are not satisfied with our response or believe we are not in accordance with the law please contact the Information Commissioner's Office (ICO) by visiting their website or by calling their helpline on **0303 123 1113**.

Pan rydym yn defnyddio eich data rydym yn ystyried ac yn rhoi pwyslais mawr ar eich hawliau data personol. Mae gennych hawl i weld eich data ar unrhyw adeg. Gallwch hefyd wrthwynebu i sut cānt eu defnyddio, a gofyn am eu cywiro neu eu dileu. Rydym yn dileu hen gofnodion a chofnodion diangen yn systematig yn ein systemau. Os ydych yn dymuno mynegi cwyn yngylch sut rydym wedi delio â’ch data personol, cysylltwch â’n Harweinwyr Diogelu Data, a fydd yn ymchwilio i’r mater.

Ein Harweinwyr Diogelu Data yw: **Sam Freeman** ac **Andrew Roberts**. Gellir cysylltu â nhw ar data.protection@theatrclwyd.com neu 01352 756331 (Llun – Gwe, 10am – 6pm) – byddwn yn ceisio ateb o fewn 48 awr. Os nad ydych yn fodlon gyda’n hymateb neu os ydych yn credu nad ydym yn cadw at y gyfraith, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) drwy fynd i’r wefan neu drwy ffonio’r llinell gymorth ar **0303 123 1113**.

And finally....

We hope that all of the young people and/or yourself enjoy their creative experience with us.

If you require any further information, please contact Gwennan Mair, Gwennan.mair@theatrclwyd.com

Ac yn olaf....

Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau eu profiad creadigol gyda ni.

Os oes arnoch chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwennan Mair Gwennan.mair@theatrclwyd.com